

FestivalUK*2022

**COFNODION
PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG (ARAC neu'r
Pwyllgor) FESTIVAL 2022 LTD ("Festival")**

2.00 – 4.00pm, Dydd Iau 30 Medi 2021

Cynhaliwyd yn bersonol a thrwy Gyfarfod Microsoft Teams

Aelodau:

Faraz Tasnim (FT) (Cadeirydd) Cyfarwyddwr Bwrdd, Festival
Liam Hannaway (LH) Cyfarwyddwr Bwrdd, Festival
Roger Lewis (RL) Cyfarwyddwr Bwrdd, Festival
Amali de Alwis (AA) Cyfarwyddwr Bwrdd, Festival

Arsylwyr:

Adam Richards (AR) Price Waterhouse Coopers (PWC)
Alison Breadon (AB) Price Waterhouse Coopers (PWC)
Daniel Coles (DC) Yr Adran Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
(DCMS) Greg Wilson (CBM) Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO)

Yn bresennol:

Ian Reid (IR) Prif Weithredwr (OC a Festival)
Caroline McGrory (CMcg) Ysgrifennydd y Cwmni a Phrif Swyddog Cyfreithiol y Grŵp, OC
a Festival
Phil Batty (PB) Cyfarwyddwr Gweithredol, Festival
Sarah Harrod (SHa) Pwyllgor Trefnu Gemau'r Gymanwlad Birmingham 2022 (OC), Pennaeth Rheoli Cyllid
John Darnbrook (JD) Pennaeth Integreiddio Busnes,
Festival
Richard Pomfret (RP) Uwch Reolwr Cyllid, Festival
Lucy Bailey (LB) Uwch Gwnsler Cyfreithiol, Festival
Sarab Hair (SH) Cydgysylltydd Gweithrediadau Corfforaethol, Festival (Ysgrifenyddiaeth)

Ymddiheuriadau:

David Grady (DG) Prif Swyddog Ariannol y Grŵp, OC a Festival

RHIF EITEM	EITEM	PERCHENNOG Y WEITHRED
1	<p>Cymeradwyo Cofnodion a Materion sy'n Codi</p> <p>Cymeradwyodd yr ARAC gofnodion cyfarfod diwethaf ARAC a gynhaliwyd ar 2 Awst 2021. Cododd FT faterion sy'n codi fel a ganlyn:</p> <p>Cam Gweithredu 1 - Parhau i fonitro cyllid y Gweinyddiaethau Datganoledig/Cyrff Cyflawni Strategol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fonitro ariannol ar draws rhaglenni. Gweithgor cyllid pedair gwlad i'w sefydlu o fis Ebrill 2021 ymlaen. Ar y gweill.</p> <p>Cam Gweithredu 2 - Sgôr Coch Oren Gwyrdd ar gyfer pob comisiwn ar statws trafodaethau'r Cytundeb Comisiynu i'w darparu i'r Bwrdd. Darparwyd y sgôr i'r bwrdd. Cam gweithredu wedi'i gau.</p> <p>Cam Gweithredu 3 - Tabl sy'n esbonio rolau a chyfrifoldebau allweddol gan gynnwys pa blatfform ac offer y gall gwahanol randdeiliaid fanteisio arnynt. Darparwyd hwn yn y cyfarfod. Cam gweithredu wedi'i gau</p> <p>Cam Gweithredu 4 - Adolygiad cynnar o Reoli Rhaglenni Gweithredol i'w gwblhau ar gyfer y Bwrdd ym mis Awst. Cwblhawyd hyn a darparwyd diweddiariad gan Archwilio Mewnol. Cam gweithredu wedi'i gau.</p>	

	Cam Gweithredu 5 - Yr wybodaeth ddiweddaraf am Seiberddiogelwch i'w chyflwyno i ARAC. Darparwyd hwn yn y cyfarfod. Cam gweithredu wedi'i gau.	
2	<p>Y Diweddaraf am y Weithrediaeth</p> <p>Darparodd PB y diweddariad canlynol;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datgelu a chyhoeddi'r rhaglenni • Caffael yr asiantaeth farchnata gwasanaeth llawn a darparwr y we • Recriwtio sylweddol o fewn y tîm a materion yn ymwneud â chadw • Y wybodaeth ddiweddaraf am y cytundebau comisiynu llawn 	
3	<p>Archwiliad Mewnol</p> <p>Rhoddodd AB grynodedb o'r diweddariad cynnydd ar weithgareddau Archwilio Mewnol a gynhaliwyd ers y diweddariad diwethaf i'r pwyllgor ym mis Mehefin.</p> <p>Y gweithgarwch presennol sydd ar y gweill:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau allweddol • Cytundebau comisiynu llawn • Rheoli portffolio'r prosiect • Cyflawni pedair gwlad integredig • Golwg fanwl ar brosiectau <p>Gwasanaethau eraill y mae PwC yn eu darparu i ni yw cyngor TAW ac IR35 mewn perthynas â'r cytundeb comisiynu llawn, cyngor mewn perthynas â'r ffurflen dreth gorfforaeth flynyddol a diddymu'r cwmni.</p> <p>Traciwr argymhellion archwilio i ddod i bob cyfarfod a'i ychwanegu at y cyfarfod rheolaethau mewnol</p> <p>Nododd ARAC gynnwys y papur.</p>	RP
4	<p>Y Diweddaraf am Berfformiad Ariannol</p> <p>Rhoddodd RP y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y perfformiad ariannol yn erbyn y flwyddyn gyfredol a'r gyllideb gydol oes. Roedd y diweddariad yn cynnwys risgiau penodol yn erbyn y gronfa wrth gefn ar hyn o bryd. Trafodwyd cyfraddau gwario cyllideb a chysoni cynllunio ariannol gan gynnwys y weithred o gontractio i gadarnhau'r gyllideb gydol oes.</p> <p>Nododd ARAC gynnwys y papur.</p>	
5.	<p>Adroddiad Portffolio a Trosolwg Risg Strategol</p> <p>Gwahoddwyd IR i siarad am y defnydd o arian a'r cynllun ar gyfer mapio'r 6-9 mis nesaf o wariant.</p> <p>Nodwyd risg newydd o ran logisteg gan gynnwys prynu nwyddau o'r UE a'r amgylchedd macro newidiol gan gynnwys cadwyn gyflenwi, technoleg a chynhyrchu, nwyddau fel pren, sglodion technoleg a'r farchnad lafur.</p> <p>Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr adroddiad risg nesaf.</p> <p>Nododd ARAC gynnwys y papur.</p>	JD
6.	<p>Cynllunio Covid</p> <p>Rhoddodd PB y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am Fframwaith Senario Covid OC. Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys 7 egwyddor sydd wedi'u cymeradwyo ochr yn ochr â phedwar arbenigwr sy'n cefnogi gweithredu'r egwyddorion.</p>	

	<p>Cytunwyd i adolygu'r egwyddorion yng ngoleuni'r gofyniad ar gyfer pob un o'r gwledydd yn barhaus.</p> <p>Nododd ARAC gynnwys y papur.</p>	PB
7.	<p>Seiberddiogelwch Grŵp y Cwmni</p> <p>Rhoddodd PB y wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am y dull o reoli Seiberddiogelwch sy'n cael ei arddel ar draws grŵp y Cwmni, ym Mhwyllgor Trefnu Gemau'r Gymanwlad (OC) a Festival.</p> <p>Hysbyswyd y pwyllgor bod dau risg wedi'u nodi ar Gofrestr Risg Strategol Festival o ran Seiberddiogelwch ac mae'r papur a ddarparwyd yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am y camau lliniaru sydd ar waith ac a ddarperir yn ddyddiol i gadw'r sefydliad a'i systemau a'i wybodaeth yn ddiogel.</p> <p>Papur i'w ddarparu ar y seiberddiogelwch sydd ar waith ar draws y 10 comisiwn yn y flwyddyn newydd.</p> <p>AA i gyfarfod ag Andy Peacock i roi sicrwydd pellach ar y trefniadau seiberddiogelwch sydd ar waith.</p> <p>Nododd ARAC gynnwys y papur</p>	PB SH
8.	<p>Strategaeth Diddymu</p> <p>Rhoddodd JD y wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am y dull yr oedd Festival yn ei arddel i ddirwyn Festival 2022 Ltd. i ben mor drefnus ac effeithlon â phosibl gyda'r bwriad o ddechrau'r diddymiad gwirfoddol yn ystod chwarter cyntaf 2023.</p> <p>Darparwyd a thrafodwyd y strategaeth ddiddymu.</p> <p>Cymeradwyodd ARAC y Strategaeth Ddiddymu.</p>	
9.	<p>Unrhyw fusnes arall</p> <p>Trafododd y pwyllgor gyllid yr Alban a chytunodd i wneud taliad arall a fydd yn cael ei adennill o dan gytundeb partneriaeth.</p>	

